Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Adolygiad gan Estyn

## Ysgol Gymraeg Ffwrnes

**Rhodfa Denham
Llanelli
SA15 4DD**

**Dyddiad yr ymweliad: Rhagfyr 2018**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

### O gategori adolygiad Estyn i welliant sylweddol

Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn ailymweld â'r ysgol ar ôl derbyn y cynllun gweithredu, i sicrhau ei fod yn addas ac yn debygol o ysgogi'r gwelliant gofynnol. Bydd arolygwyr yn ymweld â'r ysgol eto, ymhen tua 12 mis, i fonitro cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion.

O dan ddarpariaethau Adran 39 (9) Deddf Addysg 2005, mae'n rhaid i bob adroddiad blynyddol i rieni a baratoir gan y corff llywodraethol o dan Adran 30 Deddf Addysg 2002 gynnwys datganiad ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r cynllun gweithredu ar waith.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn enwedig y disgyblion mwy abl

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol bellach yn ystyried gofynion y Fframwaith Llythrennedd yn lled briodol. Maent yn mapio'r gwahanol arddulliau ysgrifennu yn addas dros gyfnod er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad o un flwyddyn i'r llall. Maent yn seiliedig ar ystod o themâu cyffrous, sy'n tanio dychymyg llawer o'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cydymffurfio â'r cynlluniau hyn ac yn cyflwyno ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau yn seiliedig ar gynnwys y themâu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 wedi ysgrifennu cofnod dyddiadur yn disgrifio'u gweithgareddau tân gwyllt tra bod disgyblion Blwyddyn 6 wedi ysgrifennu llythyr wrth Charles Darwin at gyfaill iddo yn ei holi am ei waith. Mae'r athrawon yn eu paratoi'n dda i ysgrifennu'r darnau hyn ac mae'r cyfleoedd a roddir i'r disgyblion yn codi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau sy'n addas at gynulleidfaoedd penodol. Maent yn sbarduno eu dychymyg wrth wneud hynny.

Fodd bynnag, er bod safon ysgrifennu estynedig y mwyafrif wedi gwella ers yr arolygiad craidd, ychydig ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl, sy'n cynhyrchu testun o ansawdd sy'n addas ar gyfer eu hoed a'u gallu yn annibynnol. Anghyson yw diwyg gwaith disgyblion. Mae hyn yn adlewyrchu anghysondeb mewn disgwyliadau uchel a her gan ychydig o athrawon, sy'n llesteirio gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn gynyddol ar draws yr ysgol, ac yn benodol yng nghyfnod allweddol 2. Cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn gyson ac yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm.

## A2. Sicrhau cysondeb wrth ymateb i waith disgyblion fel bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella’u medau

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi diwygio ei pholisi adborth. Mae’r polisi bellach yn cynnwys cod marcio y bu i athrawon a disgyblion gyfrannu ato a’i fireinio. Ar y cyfan, mae mwyafrif yr athrawon yn gweithredu’r cod hwn yn gyson. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn ohono, yn enwedig y symbolau hynny a ddefnyddir yn aml. Mae’r arfer o ddefnyddio inc lliw i arddangos gwelliannau yn unol ag adborth yr athrawon wedi’i wreiddio mewn llawer o ddosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn deall pwrpas y cod ac anghyson yw’r defnydd ohono gan leiafrif o’r athrawon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r athrawon wedi derbyn hyfforddiant penodol ar sut i roi adborth effeithiol i ddisgyblion ynghyd â’r dulliau gorau i’w holi er mwyn iddynt ymateb yn estynedig, er enghraifft. Yn eu tro, mae athrawon wedi manteisio ar gyfleoedd defnyddiol i ymweld â dosbarthiadau eu cydweithwyr ac athrawon mewn ysgolion llwyddiannus eraill o fewn yr awdurdod lleol i arsylwi ar arfer dda. Rhannwyd yr arferion da a welwyd gyda gweddill y staff i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o’r athrawon bellach yn defnyddio strategaethau llwyddiannus fel ‘Saib Sydyn’ fel rhan naturiol o’u gwersi. Mae’r strategaeth hon yn galluogi athrawon i rannu a thrafod camgymeriadau neu gamsyniadau gyda’r disgyblion yn y man a’r lle. Trwy ymyraethau buan fel hyn, mae disgyblion yn ymateb yn gynt i sylwadau ac yn cywiro’u gwaith eu hunain yn llwyddiannus.

Mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon mewn llawer o lyfrau iaith disgyblion bellach yn cyfeirio fwyfwy at y medrau yn hytrach nag at ymdrech yn unig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon cyson mewn rhai llyfrau thema. Mae disgyblion yn aml yn ymateb yn briodol i sylwadau athrawon. Er hyn, nid yw sylwadau ychydig o athrawon yn ddigon clir ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn eu deall nac yn ymateb yn briodol iddynt. Anghyson yw arfer ychydig o athrawon i roi cyfleoedd i’r disgyblion yn eu dosbarth ymateb i’w sylwadau. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn dysgu o’u camgymeriadau ac maent yn eu hailadrodd dro ar ôl tro, sy’n llesteirio’u cynnydd.

## A3. Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig her gyson a chadarn er mwyn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion

Er mwyn gwella ansawdd yr her a roddir i ddisgyblion, mae arweinwyr wedi darparu cyfleoedd pwrpasol i athrawon arsylwi ar arfer addysgu da o fewn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill yn yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi cryfhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth llawer ohonynt o’r hyn sydd angen i sicrhau bod yr addysgu yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd defnyddiol i athrawon rannu a thrafod mewn cyfarfodydd staff yr hyn a arsylwyd mewn dosbarthiadau eraill. Mae’r cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn wedi sicrhau bod gan lawer ddealltwriaeth gyffredin o sut i herio disgyblion yn gyson i fodloni eu hanghenion addysgol. Er mwyn datblygu’r medrau hyn ymhellach ac i sicrhau cysondeb, mae’r athrawon wedi dechrau gweithio mewn triawdau dysgu yn ddiweddar. Mae hyn yn eu galluogi i ymddiried mwy yn ei gilydd, rhannu arferion da a thrafod gwell dulliau o weithredu pan fo angen. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i weld effaith hyn ar wella cysondeb mewn agweddau o’r addysgu ac ar gyflawniad disgyblion.

Diwygiwyd gweithdrefnau cynllunio'r athrawon i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r athrawon bellach yn nodi'r her a'r meini prawf llwyddiant yn glir yn eu cynlluniau. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y cynllunio yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae disgwyliadau lleiafrif o athrawon yn parhau yn rhy isel ac nid yw lefel yr her a gynllunnir yn sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n ddigon da.

**A4. Cryfhau prosesau hunanarfarnu'r ysgol fel bod arweinwyr yn adnabod yn well y meysydd sydd angen eu gwella ac yn monitor effaith eu gweithgareddau gwella yn drwyadl**

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol bellach yn fwy ffurfiol ac yn ystyried barn disgyblion a rhieni yn ogystal â staff a llywodraethwyr. Mae'r gweithdrefnau yn seiliedig ar weithgareddau monitro uniongyrchol sy'n cynnwys dehongli data, craffu ar gynllunio athrawon, arsylwi arnynt yn addysgu, sgwrsio gyda'r disgyblion am eu gwaith ac olrhain eu cynnydd. Er bod arfarniadau mewn agweddau allweddol yn darparu darlun lled gyflawn o'r sefyllfa gyfredol, maent, ar adegau yn rhy gadarnhaol.

Mae'r cynllun gwella ôl arolygiad yn seiliedig ar yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ac yn cynnwys camau priodol i alluogi'r ysgol i ganolbwyntio'n benodol arnynt. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion eraill a nodwyd yn yr adroddiad yn dilyn yr arolygiad hwnnw. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr wedi cymryd rhan weithredol wrth lunio'r cynlluniau hyn. Mae aelodau'r pwyllgor gwella ysgol, a drefnwyd gan yr awdurdod lleol, yn monitro ei effeithiolrwydd yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion wedi bod yn rhy araf. Mae arweinwyr wedi bod yn ddibynnol iawn ar fewnbwn gan swyddogion yr awdurdod lleol ers yr arolygiad craidd, ac nid oes eto ddigon o dystiolaeth eu bod yn barod i weithredu'n annibynnol heb y gefnogaeth hon. Mae'r adroddiad diweddaraf ar gynnydd yr ysgol yn erbyn yr argymhellion, yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'n amlygu yn ddigon clir yr elfennau sydd eto i'w cyflawni.

Mae'r ysgol wedi penodi nifer o lywodraethwyr newydd ers yr arolygiad craidd. Mae'r llywodraethwyr bellach yn weledol mewn dosbarthiadau. Maent yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o deithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion i farnu gwaith yr ysgol ynghyd â chynnydd yn erbyn yr argymhellion. Fodd bynnag, er bod ganddynt gwell ddealltwriaeth o safonau'r disgyblion, nid ydynt wedi gweithredu'n ddigon cyflym i fynd i'r afael â'r anghysondeb parhaus sy'n bodoli mewn agweddau o'r addysgu. Mae hyn yn llesteirio'r cynnydd yn yr argymhellion.

**Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**